*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1131 (Cy. 196)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *16 Gorffennaf 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *17 Gorffennaf 2019* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2019 a deuant i rym ar 1 Medi 2019.

### Diwygio'r Rheoliadau

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3, hepgorer y ddiffiniadau o "cyfnod sylfaen" a "cyfnod allweddol".

(3) Yn rheoliad 4, hepgorer paragraff (7).

(4) Yn lle rheoliad 5, rhodder—

> "**5.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw sesiwn ysgol sy'n dod o fewn y blynyddoedd ysgol 2019–2020, 2020–2021 a 2021–2022 sydd wedi ei neilltuo (yn llwyr neu'n bennaf) i—

(**1**) 1996 p. 56. Mewnosodwyd adran 551(1A) gan baragraff 39 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), a diwygiwyd adran 551(2) gan baragraff 166 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31). Gweler adran 579(1) am ystyr "regulations" a "prescribed".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2003/3231 (Cy. 311), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/1262 (Cy. 119), O.S. 2008/1739 (Cy. 171), O.S. 2011/149 (Cy. 33) ac O.S. 2012/248 (Cy. 41).

(a) ddarparu hyfforddiant (gan gynnwys hyfforddiant a fynychir gan staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu a hyfforddiant a gynhelir ar y cyd ag ysgolion eraill), neu

(b) baratoi a chynllunio ar gyfer athrawon mewn ysgolion a gynhelir,

mewn perthynas â'r cwricwlwm i'w dysgu yn yr ysgol o ganlyniad i'r darpar newidiadau i'r cwricwlwm i Gymru.

(2) Mae paragraff (1) i gael effaith mewn perthynas â dim mwy na dwy sesiwn ysgol yn nhrydydd tymor pob blwyddyn ysgol.

(3) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, mae'r sesiwn honno i'w hystyried at ddibenion rheoliad 4 fel sesiwn pan gyfarfu'r ysgol.".

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

16 Gorffennaf 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") yn gymwys i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac i ysgolion arbennig pa un a'u cynhelir felly ai peidio. Maent yn gwneud darpariaeth, ymhlith pethau eraill, ar gyfer diwrnod ysgol sydd fel arfer i'w rannu yn ddwy sesiwn gydag egwyl yn y canol, ac i ysgolion (ac eithrio ysgolion meithrin) gyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2003 i ddarparu i hyd at ddwy sesiwn yn nhrydydd tymor pob un o'r blynyddoedd ysgol 2019–2020, 2020–2021 a 2021–2022 gyfrif fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol os oeddent wedi eu neilltuo i ddarparu hyfforddiant, neu i baratoi a chynllunio, mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm i Gymru. Mae'r newidiadau yma yn deillio o'r Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru a'r adroddiad dilynol "Dyfodol Llwyddiannus" (Medi 2015). Maent hefyd yn diwygio rheoliadau 3 a 4 yn Rheoliadau 2003 drwy hepgor darpariaethau diangen.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Lles Disgyblion, Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.